Pentir Community Council

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor Nos Iau 11eg o Fai 2023

yng Ngaholfan Penrhos am 7pm.

Cyfarfod Blynyddol

Agenda

Gweddi a gair o groeso

Cod Ymddygiad

Ymddiheuriadau

Derbyn Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2022 gynhalwyd 12fed o Fai

Derbyn Mantolen Ariannol am y flwyddyn 2022/2023

Adroddiad y Cadeirydd

Cadarnhau/Ethol Swyddogion:

- Cadeirydd
- Is Gadeirydd
- Ethol Cynrychiolwyr ar yr Is Bwyllgor

Adolygu Polisiau

Dilynir yn syth hefo cyfarfod o'r Cyngor.

Pentir Community Council

CYNGOR CYMUNED PENTIR

COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL A GYNHALIWYD yn Rhithiol ar yr 11/05/2022

Presennol:
Y Cyng. M Lynch, L. A. James, B Jones, M Baines, a J Pierce
Elwyn Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:
Y Cyng, J. Lewis, Eleri Jones, D Jones-Morris, a A Joyce

Ar ddechrau tymor newydd y Cyngor a chan nad oedd Cadeirydd croesawyd pawb gan y Clerc cyn iddo ofyn caniatad i newid ychydig ar yr Agenda ag ethol Cadeirydd
Cynnigwyd Cyng M Lynch yr Is-gadeirydd gan y Cyng B. Jones a cafodd ei eilio gan y Cyng L A James

Ni ddaeth enw arall ymlaen a felly etholwyd Cyng M Lynch yn gadeirydd am y flwyddyn 2022-23
Diolchodd a derbyniodd y swydd cyn symud ymlaen i gychwyn y cyfarfod a thraddodi Gweddi.

1. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2021 a materion yn codi.
Derbyn Cofnodion
Ar gynnig Cyng L A James gafodd ei eilio gan Cyng M Baines derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

2. Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol 2021 - 22
Derbyniwyd cyfrifon am y flwyddyn 2021 - 22 ynghyd a'r adroddiad ariannol, fydd yn eu tro yn cael eu anfon at yr Archwilwyr Mewnnol ag Allannol a chymedwywyd i'r Cadeirydd eu arwyddo
'Roedd y dogfennau wedi eu anfon yn electronig at bob aelod

3. Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Pentir
Cyfeiriodd y Clerc bod disgwyl bellach i gynghorau Cymuned gyflwyno adroddiad blynyddol yn amlinnellu eu gwaith am y flwyddyn a fu a'u bwriadau am y flwyddyn i ddod.
'Roedd yr adroddiad wedi eu rhannu'n electronig eisioes a'r bwriad yw ei rhannu ar wefan y Cyngor

4. Ethol Swyddogion
Nodwyd eisioes i'r Cyng M Lynch gael ei ethol yn Gadeirydd.
Ar gychwyn blwyddyn newydd tymor newydd hefo 3 sedd wag a 4 ymddiheuriad cytunwyd i ohirio penodi gweddill swyddogion tan gyfarfod Cyngor Llawn Mis Mehefin pryd y gobeithir y bydd mwy yn bresennol a rhai wedi eu cyfethol

<u>4.3 – Aelodaeth o'r Is-Bwyllgorau</u>

Gweler uchod i ethol yn Mis Mehefin

Cytunwyd i sefydlu Is-Bwyllgor i sefydlu Cynllun busnes dros gyfnod o rhyw dair blynedd gan roi hwnnw ar agenda Mis Mehefin

Daeth y Cyfarfod Blynyddol i ben am 7.30